

BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN
ANGLESEY AND GWYNEDD LOCAL SERVICE BOARD

2:00yp – 4.30yp	2:00pm – 4.30pm
26/06/2015	26/06/2015
Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor	Seminar Room, Coleg Menai, Bangor

RHAGLEN

AGENDA

1.	Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd 31 Mawrth, 2015 – i'w cymeradwyo. Unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion –	Minutes of the meeting held on March 31, 2015 – for approval. Any matters arising from minutes –
2.	Blaenoriaethau Allweddol y BGLI – ystyried cynigion drafft lefel uchel gan yr Arweinwyr BGLI: <ul style="list-style-type: none"> • BA 1 Pobl Hŷn – Adroddiad gan Ffion Johnstone • BA 2 Adeiliadu Teuluoedd Cryfach – Adroddiad gan Nigel Harrison • BA 3 Cymunedau Cynladwy/ Adfywio Cymunedol – Adroddiad ar ran Dilwyn Williams 	LSB Key Priorities – consider draft high level proposals from the LSB Leads: <ul style="list-style-type: none"> • KPA 1 Older People – Report by Ffion Johnstone • KPA 2 Building Resilient Families – Report by Nigel Harrison • KPA 3 Sustainable Communities/ Community Regeneration – Report on behalf of Dilwyn Williams
3.	' Ymarfer gwranddo ' – diweddariad gan Ffion Johnstone	' Listening Exercise ' – update by Ffion Johnstone
4.	Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru – adolygiad terfynol	Welsh Audit Office's Review – final report
5.	Adolygiad Blynyddol 2014/15 y BGLI/CIS – er cymeradwyaeth.	2014/15 Annual Review of the LSB/SIP – for approval.
6.	Ffrwd Gwaith Craffu BGLI ar y Cyd – er ystyriaeth bellach.	LSB Joint Scrutiny work-stream – for further consideration.

7.	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – diweddariad gan Sioned Rees	Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 – update by Sioned Rees
8.	Blaen Raglen Waith y BGLI (2015/16) – er adolygiad	LSB Forward Work Programme (2015/16) – for review.
9.	Cadarnhau trefniadau'r cyfarfod nesaf: 18 Medi , 2015 Ystafell Seminar, Coleg menai	Confirm arrangements of next meeting: 18th September, 2015 Seminar Room, Coleg Menai



BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2015
am 2.00pm yng Ngholeg Menai, Bangor**

YN BRESENNOL: Walis George, Grŵp Cynefin (**Cadeirydd**)
Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn Lewis, Cyngor Gwynedd (dirprwyo
ar ran Arweinydd Cyngor Gwynedd);
Nigel Harrison, Heddlu Gogledd Cymru;
Stephen Hughes, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Gogledd Cymru;
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;
John R Jones, Medrwn Môn;
Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
/Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Dr Gwynne Jones, Cyngor Sir Ynys Môn;
Iwan T Jones, Cyngor Gwynedd (dirprwyo ar ran y
Cyfarwyddwr);
Iwan Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (dirprwyo ar ran
y Cyfarwyddwr)
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru;
Y Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn;
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd;

Hefyd yn bresennol: Janet Roberts, Cyngor Gwynedd
Llio Johnson, Cyngor Gwynedd
Rhian Bayley-Hughes, Cyngor Gwynedd

1. YMDDIHEURIADAU

Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd;
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Iechyd Cyhoeddus Cymru;
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai;
Julian Sandham, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;
Tim Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru;
Andy Jones, Gwasanaeth Prawf Cymru.

2. DIWEDDARIAD AR DREFNIADAU CYFREDOL Y BARTNERIAETH

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar drefniadau cyfredol y Bartneriaeth a chyflwynwyd Llio Johnson fel yr Uwch Reolwr Partneriaethau a gafodd ei secondio i'r swydd am chwe mis yn wreiddiol. Bellach, hi oedd person cyswllt aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, nodwyd fod cynrychiolwyr y Bwrdd yn mynychu grŵp llywio a oedd yn ystyried goblygiadau / materion ynghylch ariannu'r gefnogaeth, fodd bynnag, yn sgil newidiadau diweddar yn yr awdurdodau lleol, roedd angen i'r ddau Awdurdod Lleol gyfarfod i drafod yr hinsawdd ariannol bresennol cyn cynnal cyfarfod o'r grŵp llywio.

PENDERFYNWYD:

- **Y Grŵp Llywio i ymgynnull ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y BGLI ym mis Medi, 2015.**

3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31 MAWRTH, 2015

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2015, yn gofnod cywir o'r trafodaethau yn amodol ar newid y frawddeg olaf dan eitem 4 i egluro:

"Nododd Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd, yn sgil y cynni ariannol a'r toriadau i wasanaethau i drethdalwyr, mae angen edrych ar y gyllideb o £350,000 ar gyfer gweinyddiaeth yr HOLL Bartneriaethau."

4. RHAGLEN DDATBLYGU'R BWRDD

Cafwyd trafodaeth am yr angen i hwylusydd allanol gynorthwyo'r Bwrdd gyda'i raglen ddatblygu.

PENDERFYNWYD:

- **Cytunodd y Bwrdd i barhau â'i gynllun i gael rhaglen ddatblygu i'r Bwrdd ond y dylid gwneud hynny heb gymorth hwylusydd allanol.**

5. PRIF FLAENORIAETHAU'R BWRDD GWASANAETHAU LLEOL

Gofynnwyd i arweinyddion prosiect y Prif Feysydd Blaenoriaeth ddiweddarau'r Bwrdd ar gynnydd y timau prosiect.

5.1 Prif Faes Blaenoriaeth 1 – Pobl Hŷn:

- Nododd Ffion Johnson fod rhai aelodau'r grŵp wedi ymgynnull ym mis Mawrth, 2015 i drafod a nodi blaenoriaethau cyffredin. Nodwyd bod yr amrediad o waith posib o fewn y prif faes blaenoriaeth hwn yn eang a bod gwir angen canolbwyntio ar ryw un neu ddau o brif faterion i sicrhau llwyddiant. Mynegwyd pryder hefyd fod yna nifer o brif ffrydiau gwaith oedd yn ymwneud â 'phobl hŷn' ac y dylid osgoi dyblygu ar bob cyfrif.
- Nodwyd bod ymweliad arfaethedig gan y Comisiynydd i gyfarfod y BGLI wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr, 2015;
- Gofynnwyd i'r Bwrdd flaenoriaethu pa gynigion lefel uchel y dylai'r ffrwd gwaith fwrw ymlaen â nhw mewn partneriaeth, er mwyn gwella deilliannau i'r dinesydd.
- Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:
 - Bod rhaid i aelodau'r Bwrdd fod yn ymwybodol o waith sydd eisoes ar y gweill yn lechyd;
 - Bod llawer o waith yn cael ei wneud yn Lloegr er mwyn mynd i'r afael â dementia, y gellid edrych i mewn iddo;
 - Bod recriwtio meddygon teulu a nyrsys yn broblem i'r ardal.

5.2 Prif Faes Blaenoriaeth 2 – Creu Teuluoedd Cryfach:

- Nododd Nigel Harrison, er mwyn symud ymlaen a chytuno ar gynigion lefel uchel, ei bod hi'n angenrheidiol ymgymryd ag ymarferiad mapio er mwyn deall pa ddarpariaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Mae gwaith wedi'i raglennu i ymgymryd ag ymarferiad mapio.
- Unwaith y bydd y mapio wedi'i gwblhau, rhoddir ystyriaeth i'r hyn y gall aelodau anstatudol ei wneud ac fel Bwrdd beth ellir ei wneud i lenwi'r bylchau a gododd wrth fapio.
- Yn dilyn y drafodaeth ddilynol, nodwyd:
 - Cytunodd pawb fod mapio yn hanfodol er mwyn adnabod y ddarpariaeth gyfredol a phrosiectau a ariennir drwy grantiau a'r angen i asesu'r risg i wasanaethau pan ddaw prosiectau i ben.

5.3 Prif Faes Blaenoriaeth 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedau

- Cyflwynodd Iwan Jones adroddiad cynnydd ar ran arweinydd y prosiect gan gynnig y dylai'r grŵp prosiect flaenoriaethu'r pedair ffrwd gwaith bosib a ganlyn:
 - Cryfhau'r Defnydd o'r iaith Gymraeg;
 - Datblygu Cymunedau Gwydn;
 - Yr Economi / Cynllun Prentisiaeth;
 - Rhannu Asedau.

Yn ystod y trafodaethau, nodwyd er bod yr adroddiad yn un eang a diddorol, y byddai'r Bwrdd yn elwa drwy ganolbwyntio ar lai o flaenoriaethau. Yn dilyn y trafodaethau, nodwyd y byddair Bwrdd yn cytuno mewn egwyddor i gefnogi – 'Cryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg'; 'Datblygu cymunedau gwydn' a 'Rhannu asedau'.

Roedd aelodau'r Bwrdd yn cytuno mewn egwyddor gyda'r Cynllun Prentisiaeth ond roedd cydnabyddiaeth hefyd bod cynllun o'r fath eisoes yn cael ei arwain gan Grŵp Llandrillo Menai. Bydd angen mwy o waith yn y dyfodol yn nhermau partneriaid yn cynnig cyfleoedd prentisiaethau o fewn sefydliadau partner.

PENDERFYNWYD:

- **BA1** – Pobl Hŷn – grŵp prosiect i gyfarfod yn ystod mis Gorffennaf 2015 gan gadw trafodaethau heddiw mewn cof.
- **BA1** – Ffion i adrodd yn ôl ar 'recriwtio' yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd sydd wedi'i raglennu ym mis Medi 2015.
- **BA2** - 'Creu Teuluoedd Gwydn' - cwblhau ymarferiad mapio o'r ddarpariaeth gwasanaeth cyfredol yng Ngwynedd a Môn ac adnabod bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth a chyflwyno'r fethodoleg i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, 2015.
- **BA3** – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol – Fe gytunodd aelodau'r Bwrdd mewn egwyddor i'r blaenoriaethau a ganlyn:
 - Rhannu Asedau – gwaith pellach angen ei wneud gan y grŵp prosiect ar y ffordd ymlaen.
 - Cryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg – parhau gyda'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad.
 - Datblygu Cymunedau Gwydn – parhau gyda'r gwaith fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad a chomisiynu ymchwil pellach ar gyfer y ffrwd gwaith.

6. YMARFERIAD GWRANDO – DIWEDDARIAD

Rhoddodd Ffion Johnstone gyflwyniad byr i aelodau'r bwrdd gydag amlinelliad o'r materion cyfredol sy'n effeithio ar BIPBC a bod y Bwrdd lechyd wedi'i feirniadu am beidio â gwrando ar farn staff a'r cyhoedd yn gyffredinol.

7. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O'R BWRDD GWASANAETHAU LLEOL 2014/2015

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd yn y cyfarfod diwethaf ar 31 Mawrth 2015 gan Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar ddarganfyddiadau'r archwiliad a wnaed rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Ionawr 2015.

Mae adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi ers hynny ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r cynigion gwella.

PENDERFYNWYD

- **Derbyniodd aelodau'r Bwrdd y cynigion gwella.**

8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL

Rhannwyd adroddiad blynyddol 2014/2015 drafft gydag aelodau'r Bwrdd a nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Dylai'r adroddiad ddathlu llwyddiant y Bwrdd wrth fod yn Fwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd;
- Dylai'r adroddiad ystyried sut mae'n ychwanegu gwerth a dylai adlewyrchu trafodaethau diweddar a ddaeth yn sgil sesiynau hwyluso'r Bwrdd.

PENDERFYNWYD

- **Cynigion gwella i'w hychwanegu i'r adolygiad blynyddol a'r adroddiad terfynol i gael ei rannu i aelodau'r Bwrdd i'w gymeradwyo cyn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru.**

9. FFRWD GWAITH CRAFFU AR Y CYD Y BGLI

Cyflwynwyd adroddiad ar y cynnydd hyd heddiw ar ddatblygu trefniadau craffu ar y cyd er mwyn tanategu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Mae gwaith yn parhau gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i sefydlu'r panel gan ystyried pwy ddylai fod yn aelodau. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r angen i'r panel fod yn ei le yn barod at pan fydd y BGLI yn dod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2016.

Y cynnig yn yr adroddiad oedd y dylai aelodau'r Panel fod yn aelodau partneriaid statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub

PENDERFYNWYD:

- **Nodi'r cynnydd hyd heddiw wrth ddatblygu trefniadau craffu ar y cyd i danategu gwaith y BGLI;**
- **Nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus a fydd yn cyngori ynghylch aelodaeth y panel a chynnydd.**

10. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Briffiodd Sioned Rees y Bwrdd ar gynnydd hyd heddiw gan nodi y bydd y Ddeddf yn ei lle o fis Ebrill 2016.

Nodwyd y pwyntiau isod:

- Bydd y canllawiau statudol drafft yn mynd allan i ymgynghoriad yn ystod misoedd yr haf;
- Cynhelir cynhadledd ar gyfer aelodau BGLI yng Nghaerdydd ar 26 Tachwedd 2015 i gynorthwyo gyda thrawsnewid y BGLI yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn swyddogaeth statudol o fis Ebrill 2016;
- Bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gadeirio gan yr awdurdod lleol.

PENDERFYNWYD

- **Nodi ymrwymiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**
- **Nodi'r gynhadledd i aelodau'r BGLI yng Nghaerdydd ar 26 Tachwedd 2015.**

11. BLAEN RAGLEN WAITH BGLI (2015/16)

Nododd yr Uwch Reolwr Partneriaethau bod y blaen raglen waith wedi'i hadolygu i adlewyrchu cynigion gwella a ddaeth yn sgil adolygiad SAC o'r BGLI a'r paratodau i symud i fod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD:

- **Cymeradwyo'r Blaen Raglen Waith diwygiedig i gynnwys datblygu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu i'w chyflwyno yng nghyfarfod y BGLI ym mis Medi 2015.**
- **Cyflwyno Strwythur a Threfn Lywodraethol newydd drafft y bartneriaeth i gyfarfod y BGLI ym mis Medi 2015 er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y BGLI yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**
- **Cyflwyno papur Asesiad o Anghenion Lleol i'w gymeradwyo erbyn mis Medi 2015.**

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD nodi manylion y trefniadau a wnaed i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 18 Medi 2015 yn yr Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor, Gwynedd.

Eitemau ar y Rhaglen:

- **3 Ffrwd Gwaith Prif Faes Blaenoriaeth – adroddiadau cynnydd;**
- **Prosiectau Isadeiledd Mawr: Wylfa Newydd – adroddiad cynnydd;**
- **- er ystyriaeth bellach;**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - ystyriaeth bellach;**
- **Ffrwd Gwaith Craffu ar y Cyd y BGLI – adroddiad cynnydd;**
- **Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft – er cymeradwyaeth;**
- **Strwythur a Threfn Lywodraethol newydd drafft y bartneriaeth - er cymeradwyaeth;**
- **Asesiad o Anghenion Lleol – papur amlinellol er cymeradwyaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 15.50pm